*Cymorth i Ferched Cymru - Nodyn Briffio Mehefin 2017*

# *Menywod Hŷn yn Byw gyda Thrais a Cham-drin*

***Mae menywod o bob oed yn profi trais yn erbyn menywod gan gynnwys cam-drin domestig a thrais rhywiol, ond yn aml caiff profiadau menywod hŷn eu hesgeuluso. Rhaid i ni herio'r agweddau sy'n esgeuluso profiadau menywod hŷn, sydd eisoes yn anweladwy ar draws cymdeithas.***

Mae trais yn erbyn menywod gan gynnwys cam-drin domestig a thrais rhywiol yn effeithio ar fenywod ar draws cymdeithas, ond yn aml mae menywod hŷn ar goll o'r data hwn. Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru'n amcangyfrif bod dros 40,000 o bobl hŷn (50 oed a hŷn) yng Nghymru'n cael eu cam-drin yn eu cartrefi bob blwyddyn.[1]

Mae menywod hŷn yn profi trais a cham-drin gan eu partneriaid neu aelodau o'r teulu sy'n defnyddio cam-drin corfforol, rhywiol, seicolegol ac ariannol i ymarfer grym a rheolaeth dros bob agwedd o fywydau menywod. Fel tacteg rheoli, mae cam-drin domestig yn ail-greu ac yn atgyfnerthu dibyniaeth economaidd menywod ac yn fodd i'r sawl sy'n cam-drin gyflawni'r grym ariannol y byddai gan ddynion dros fenywod yn flaenorol.

Tra bo rhai menywod hŷn wedi profi cam-drin ers nifer o ddegawdau, mae eraill yn dechrau ei brofi mewn perthynas lle na bu cam-drin o'r blaen, neu mewn perthynas newydd. Ynghyd â'r amrywiaeth enfawr o gam-drin y gall menywod hŷn ei wynebu, mae eu gosod mewn un grŵp homogenaidd yn gwadu profiadau unigryw pob goroeswr ac yn anwybyddu eu hanghenion unigol.

## Pobl Hŷn yn Byw gyda Cham-drin Ariannol

***Yn aml mae cam-drin ariannol yn rhan o batrwm ehangach o gam-drin domestig. I lawer o fenywod mae hyn yn golygu cael eu hatal rhag cael incwm annibynnol, bod eu gwariant yn cael ei fonitro, dyledion yn eu henw nhw neu gael eu gorfodi i ddwyn gan y sawl sy'n cam-drin.***

Dywed Ann*, sydd wedi goroesi cam-drin, bod yr ynysu'n waeth i berson hŷn: **"Fy ffocws i oedd fy nheulu … dydych chi ddim yn mynd allan i fwynhau eich hun ac ati yn fy oed i."** Ar ôl cyfnod o gam-drin ceisiodd Ann gael diogelwch mewn lloches. Ar y dechrau roedd yn gyndyn i fyw gyda phobl eraill ar ôl blynyddoedd o fod yn ynysig, ond newidiodd y lloches ei bywyd. Helpodd y staff Ann i sefydlu ei chyfrif banc ei hun am nad oedd ei phartner yn caniatáu iddi gael arian, a dod o hyd i gartref i'w hun. Yn ôl Ann oni bai am y lloches, fyddai hi ddim yma: **"Fel menyw hŷn dydych chi ddim yn meddwl y gallwch chi wneud dim ond mae cymorth yn gwneud i chi sylweddoli y gallwch, nad ydych chi'n rhy hen i unrhyw beth. Ar fy oed i rydych chi'n meddwl bod bywyd ar ben, ond rhoddon nhw olwg newydd i fi ar bethau."**

[1] 'Cam-drin domestig a thrais rhywiol: Cymorth a Chefnogaeth i Bobl Hŷn yng Nghymru, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, http://www.olderpeoplewales.com/Libraries/Uploads/DVSA_Leaflet_-_Welsh_2016.sflb.ashx [cyrchwyd 8 Mehefin 2017].
* Newidiwyd pob enw i ddiogelu anhysbysrwydd.

Pendragon House, Caxton Place | Pentwyn, Cardiff | CF23 8XE
Tel: 02920 541551 | Fax: 02920 736128
Email: info@welshwomensaid.org.uk | Web: www.welshwomensaid.org.uk
Registered Charity Number: 1140962

Realiti cam-drin ariannol i lawer o fenywod yw ychydig neu ddim arian annibynnol na dewis o ran gwario neu ddyledion sylweddol yn eu henw nhw. Gall cam-drin ariannol arwain hefyd at oroeswyr yn cael record droseddol am iddynt gael eu gorfodi gan y sawl sy'n cam- drin i ddwyn neu gyflawni twyll. Mae sawl math o gam-drin ariannol, ond anaml y bydd yn digwydd ar ei ben ei hun. Yn hytrach, mae'n aml yn rhan o batrwm ehangach, parhaus o gam-drin â'r bwriad o orfodi rheolaeth, cyfyngu ac ynysu ar fywyd y goroeswr. Mae cam-drin ariannol yn effeithio ar bobl ar draws cymdeithas ond mae dibyniaeth gynyddol ar eraill yn peri risg uwch o gam-drin ariannol a mathau eraill o drais yn erbyn menywod ymhlith rhai menywod hŷn nid yn unig yn y parth domestig, ond hefyd gan ffrindiau agos a gweithwyr gofal, cymdogion a dieithriaid.

## Y Cyd-destun Ehangach

Caiff y term cam-drin pobl hŷn ei ddiffinio fel: 'Gweithred unigol neu a ailadroddir neu ddiffyg gweithredu priodol, sy'n digwydd mewn unrhyw berthynas lle ceir disgwyliad o ymddiriedaeth, sy'n achosi niwed neu ofid i berson hŷn[2]'. Mae Cymorth i Ferched Cymru yn cefnogi'r diffiniad hwn, a hefyd yn cydnabod dealltwriaeth arall o bob trais yn erbyn menywod - gan gynnwys menywod hŷn - sy'n canolbwyntio fwy ar rywedd nag a wneir fel arfer gyda'r term a mabwysiadu dealltwriaeth lawer ehangach o'r hyn a olygir gan drais. Nid yw ymchwil ac ymarfer ar gam-drin pobl hŷn bob amser yn ystyried mathau ehangach o drais yn erbyn menywod hŷn yn cynnwys cam-drin domestig a thrais rhywiol, gan ganolbwyntio ar oedran y goroeswyr o fewn cyd-destun eu breguster cynyddol a'u hangen am ofal meddygol a chymdeithasol yn hytrach na gosod profiadau menywod hŷn o fewn cyd-destun ehangach trais yn erbyn menywod ar draws cymdeithas.

Nid yw effaith trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar fenywod hŷn yn cael cydnabyddiaeth ddigonol. Mae adroddiad y Gymdeithas Llywodraeth Leol 'Adult safeguarding and domestic abuse: A guide to support practitioners and managers' yn awgrymu **y gallai hyn fod oherwydd y tybiaethau sy'n ymwneud â 'cham-drin pobl hŷn; a all fethu â chydnabod cymhlethdodau sylfaenol cysylltiadau grym mewn perthynas yn hwyrach mewn bywyd.[3]**

Eglurodd Trisha*, goroeswr cam-drin gan aelod o'r teulu, pa mor hawdd yw cuddio a diystyru ymddygiad camdriniol yn erbyn cenedlaethau hŷn. **"Mae angen gwneud mwy i godi ymwybyddiaeth ymhlith menywod aeddfed am gam-drin, oherwydd boed yn gam-drin domestig, trais neu drais rhywiol, mae pobl yn tueddu i feddwl am bobl ifanc. Mae gorfodi rhywun i roi'r gorau i yrru neu beidio â gadael iddyn nhw weithio yn rhywbeth sy'n hawdd ei guddio ymhlith cenedlaethau hŷn oherwydd bydd pobl yn tybio bod rhywun wedi rhoi'r gorau i'r gweithgareddau hyn oherwydd oedran yn hytrach na gwneud cysylltiad gyda cham-drin domestig."**

Gyda thua 40% o boblogaeth Cymru dros 50 oed[4], mae angen gwneud mwy i dorri'r tawelwch am gam-drin a brofir gan fenywod hŷn sydd yn rhy aml o lawer yn goroesi cam-drin pob dydd, flwyddyn

---

[2] Defnyddir y diffiniad hwn gan Action on Elder Abuse ac mae wedi'i fabwysiadu gan Sefydliad Iechyd y Byd. 'What is Elder Abuse?', https://elderabuse.org.uk/what-is-elder-abuse/, *Action on Elder Abuse,* [cyrchwyd 8 Mehefin 2017].
[3] S. Lewis a C. Williams, 'Adult safeguarding and domestic abuse: A guide to support practitioners and managers', Local Government Association, 2013, https://www.local.gov.uk/sites/default/files/documents/adult-safeguarding-and-do-cfe.pdf, [cyrchwyd 9 Mai 2017], tt. 28.
[4] 'Population Estimates for UK, England and Wales, Scotland and Northern Ireland', Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol ,https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/datasets/populationestimatesforukenglandandwalesscotlandandnorthernireland, 2016, [cyrchwyd 8 Mehefin 2017].

ar ôl blwyddyn, degawd ar ôl degawd. Ar sail y nifer o fenywod dros 50 oed y disgwylir y byddant wedi profi trais a cham-drin, gellir tybio nad yw'r mwyafrif llethol eto'n barod i siarad am eu cam-drin a manteisio ar y cymorth arbenigol sydd ei angen arnynt. Gall newid mewn cyflogaeth, ymddeol a/neu salwch gael effaith ddifrifol ar ymddygiad camdriniol, a gall arwain at ynysu a dirywio.

Mae data ar amledd y trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a brofir gan fenywod hŷn yn gyfyngedig ond mae'n ymddangos o'r dystiolaeth sy'n bodoli bod menywod hŷn yn profi trais a cham-drin ar gyfraddau tebyg i fenywod iau[5]. Dywedodd aelod wasanaethau Cymorth i Ferched Cymru fod 5.4% o'r rheini mewn llochesi yng Nghymru yn 2015/16 yn 55 oed ac yn hŷn, a bod 6.7% o bobl a gefnogir gan aelod wasanaethau yn y gymuned yn y categori oed hwn.

Yn 2016-17, roedd 9.2% o'r goroeswyr a alwodd y Llinell Gymorth genedlaethol Byw Heb Ofn gan ddatgelu eu hoedran dros 55 oed. Trafododd rhai o'r goroeswyr hyn hefyd anabledd (5.6%), problemau iechyd meddwl (10.7%), digartrefedd (2.8%), problemau dyled (1.1%), camddefnyddio sylweddau (0.5%), ceisio hunanladdiad (0.5%) a byw mewn cymuned deithiol (0.5%). Nid un grŵp homongenaidd yw pobl hŷn, ond mae ganddynt anghenion unigol, penodol.

Er gwaethaf yr amledd hwn, mae trais yn erbyn menywod hŷn yn un o'r meysydd ymchwil nad yw'n cael sylw[6]. Er bod Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu'r term 'pobl hŷn' i gyfeirio at bobl dros 50 oed, o fewn y gronfa fach o ddata sy'n bodoli ar drais yn erbyn menywod hŷn, mae unrhyw gymhariaeth rhwng canfyddiadau yn fwy anodd gan nad oes consensws ynghylch yr oedran y caiff menywod eu hystyried yn 'hŷn'. Mae rhai astudiaethau ac ystadegau'n categoreiddio menywod o 55 oed tra bo eraill yn nodi 66 oed a throsodd. Yn ogystal, mae ffynonellau fel Arolwg Troseddau Cymru a Lloegr a'r Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol yn casglu data cam-drin domestig ar gyfer goroeswyr rhwng 16 a 59 oed yn unig, sydd i bob pwrpas yn golygu bod goroeswyr dros 60 oed yn anweledig.[7]

## Lladd menywod hŷn

Yn yr adroddiad Cyfrifiad Ladd Menywod, o'r 936 o fenywod y gwyddys iddynt gael eu lladd gan ddynion yng Nghymru a Lloegr rhwng 2009 a 2016, roedd 149 o fenywod dros 66 oed (15.9%). Mae'r ffigur hwn yn codi i 25.7% pan gynhwysir pob menyw dros 55 oed. Cafodd 34% o'r 149 o fenywod eu lladd gan eu partner neu briod. O'r holl fenywod a laddwyd gan eu plant ar draws pob categori oedran, ceir risg cynyddol sylweddol i'r rhai sydd dros 66: cafodd 23% o'r 149 o fenywod dros 66 a laddwyd eu lladd gan eu meibion, o'i gymharu â 7.8% ar gyfer menywod o bob oed.[8] Lladdwyd 15% o fenywod dros 66 oed yn ystod lladrad neu fyrgleriaeth[9]. Lladdwyd 34% o fenywod dros 66 drwy drais gan bartner agos (eu partner neu gynbartner) tra bo 8% yn ddioddefwyr "lladd tosturiol" honedig gan naill ai briod/partner neu fab. Roedd rhai a laddwyd yn ôl pob tebyg yn rhan o gytundeb hunanladdiad, ond

---

[5] Women's Aid Federation of England, Women's Aid Annual Survey 2016', Women's Aid Federation England, Mawrth 2017, https://1q7dqy2unor827bqjls0c4rn-wpengine.netdna-ssl.com/wp-content/uploads/2017/03/Annual-Survey-2016.pdf, [cyrchwyd 23rd Mai 2017], tt. 41.
[6] D. Brennan, 'Femicide Census: profile of women killed by men', *Women's Aid*, 2016, https://1q7dqy2unor827bqjls0c4rn-wpengine.netdna-ssl.com/wp-content/uploads/2017/01/The-Femicide-Census-Jan-2017.pdf, (cyrchwyd 20 Ionawr 2017), tt. 16.
[7] 'Domestic Abuse in England and Wales – Year ending March 2016', *Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol* https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/datasets/domesticabuseinenglandandwalesbulletintables, [cyrchwyd 30 may 2017].
[8] D. Brennan, 'Femicide Census: profile of women killed by men', *Women's Aid*, 2016, https://1q7dqy2unor827bqjls0c4rn-wpengine.netdna-ssl.com/wp-content/uploads/2017/01/The-Femicide-Census-Jan-2017.pdf, [cyrchwyd 20 Ionawr 2017], tt. 23.
[9] Ibid

yn aml mae'r naratif a dderbynnir ynghylch yr hyn a ddigwyddodd yn dibynnu'n rhy drwm o lawer ar yr hyn a adroddir gan y cyflawnwr.[10]

Yn 2016, roedd 46% o'r menywod a laddwyd gan ddynion yng Nghymru dros 50 oed[11]. Lladdwyd y menywod hyn gan bartneriaid, meibion a chymdogion[12]. Mewn llawer o achosion, mae'r cyfryngau prif lif yn portreadu'r weithred gan y dynion hyn yn un sydd 'allan o gymeriad' gan ganolbwyntio ar y cyflawnwr ac nid y dioddefwr, yn hytrach nag ystyried y patrymau o gam-drin sydd mor aml yn rhagflaenu'r gweithredoedd ysgeler hyn.

## Anghenion menywod hŷn

***Bydd menywod hŷn wedi tyfu fyny ar adeg pan nad oedd trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig neu drais rhywiol yn cael eu cydnabod a bydd hyn yn debygol o effeithio ar eu dealltwriaeth o'r gwasanaethau cymorth sydd ar gael. Pan gaiff bobl hŷn eu cam-drin dylent wybod ble i gael cymorth a rhaid i'r gwasanaethau arbenigol fod â'r adnoddau i ymateb i'w hanghenion.***

Amcan 'Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru 2013-2023' Llywodraeth Cymru yw gwella cyfranogiad cymdeithasol a mynediad at wybodaeth i bobl dros 50 yng Nghymru erbyn 2023, gan sicrhau bod pobl hŷn yn mwynhau gwell ansawdd bywyd, yn cael bywydau cymdeithasol bywiog (os ydynt yn dymuno), nad ydynt yn dioddef unigrwydd neu ynysu cymdeithasol ac nad yw pobl hŷn yng Nghymru'n cael eu cam-drin. Erbyn 2023, dylai fod gan bobl hŷn well mynediad at wybodaeth a chyngor am wasanaethau a chyfleoedd, a rhaid iddynt beidio â bod dan anfantais wrth eu cyrchu[13]. Er mwyn cyflawni hyn, rhaid lleihau'r trais a cham-drin a brofir gan fenywod hŷn yn ddramatig, gyda gwell cyfleoedd i ddatgelu, codi ymwybyddiaeth yn genedlaethol am y materion, a hyfforddiant ar draws y sector cyhoeddus sy'n canolbwyntio'n benodol ar gyfoethogi dealltwriaeth gyhoeddus a phroffesiynol o brofiadau menywod hŷn o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol fel rhywbeth sy'n torri eu hawliau fel menywod a hefyd o fewn cyd-destun hawliau dynol.

Achos Adolygu Lladd Domestig: **"Dywed y nyrs brysbennu fod Jill* yn anfodlon dweud beth ddigwyddodd ond ei fod yn cofio bod Ben* wedi cyrraedd yn ystod y sgwrs a'i gyflwyno ei hun fel gofalwr Jill. Dywedodd Jill 'Mae'n fy nghuro' ac atebodd Ben 'Ti'n gwybod nad ydw i'n dy guro di'. Dywedodd nad oedd Jill yn ymateb nac yn dangos arwyddion o bryder. Mae'r nyrs brysbennu'n nodi yn ei ddatganiad i'r heddlu bod Jill dan ddylanwad alcohol. Dywed hefyd na chynhwysodd gyhuddiad Jill yn ei nodiadau gan nad oedd yn gwybod a oedd yn wir ai peidio."**[14]

Mae Dadansoddiad Achos yr Adolygiad Llofruddiaeth Ddomestig: Adroddiad i *Standing Together*,[15] sy'n dadansoddi achosion adolygu llofruddiaethau domestig, wedi galw am hyfforddiant digonol yn y

[10] D. Brennan, 'Femicide Census: profile of women killed by men', *Women's Aid*, 2016, https://1q7dqy2unor827bqjls0c4rn-wpengine.netdna-ssl.com/wp-content/uploads/2017/01/The-Femicide-Census-Jan-2017.pdf, [cyrchwyd 20 Ionawr 2017], tt. 23.
[11] K. Ingala Smith, Counting Dead Women 2016, https://kareningalasmith.com/2016/03/03/2016/, 2016, [cyrchwyd 8 Mehefin 2017].
[12] Ibid
[13] Y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru 2013-2023', Llywodraeth Cymru, 2013, http://gov.wales/docs/dhss/publications/130521olderpeoplestrategycy.pdf [cyrchwyd 7 Mai 2017].
[14] N Sharp-Jeffs and L. Kelly, 'Domestic Homicide Review (DHR) Case Analysis: Case Analysis', http://www.standingtogether.org.uk/sites/default/files/docs/STADV_DHR_Report_Final.pdf, 2016, [cyrchwyd 9 Mehefin 2017], tt. 36.
[15] N Sharp-Jeffs and L. Kelly, 'Domestic Homicide Review (DHR) Case Analysis: Case Analysis', http://www.standingtogether.org.uk/sites/default/files/docs/STADV_DHR_Report_Final.pdf, 2016, [cyrchwyd 9 Mehefin 2017]

gwasanaethau cymdeithasol i oedolion ar ddynameg cam-drin domestig, adnabod ac asesu risg, a ddylai fabwysiadu dull rhyngadrannol ac archwilio'r rhwystrau niferus a'r risg cynyddol a wynebir gan grwpiau penodol, gan gynnwys pobl hŷn, pobl ag anableddau, problemau camddefnyddio sylweddau ac afiechyd meddwl[16]. Mae'r adroddiad yn cydnabod ymhellach bod goroeswyr anabl yn wynebu rhwystrau cymhleth ac ychwanegol wrth gyrchu cymorth, yn enwedig os mai eu gofalwr yw'r cyflawnwr.[17]

Dywedodd Eirlys* wrth Cymorth i Ferched Cymru sut roedd gwasanaethau'n normaleiddio'r cam-drin roedd hi'n ei brofi gan ei mab gan ddisgwyl iddi ymdopi â'r peth*:* ***"Galwodd y cymdogion yr heddlu a daethon nhw a gofyn iddo 'wyt ti wedi curo dy fam eto?' Rwyf i'n hŷn, yn dioddef afiechyd ac yn anabl ac roedd rhaid i'r gweithiwr iechyd roi'r gorau i ddod i fy nhŷ oherwydd ei fod mor beryglus. Ond maen nhw'n disgwyl i fi fyw yna".***

Ceir nifer o ffactorau pam nad yw menywod hŷn efallai'n barod i ddatgelu eu bod yn profi cam-drin fel: dim profiad o waith y tu allan i'r cartref, dim adnoddau economaidd annibynnol, cywilydd ac embaras am hyd y cam-drin, pryder am gael eu hynysu yn dilyn terfynu'r berthynas o gam-drin, diffyg ymwybyddiaeth am wasanaethau ac opsiynau, canfyddiad anghywir bod gwasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol arbenigol wedi'u bwriadu ar gyfer menywod iau gyda phlant yn unig, yn ogystal â diffyg hyfforddiant ymhlith gwasanaethau cyffredinol ar gyfer adnabod nodweddion unigryw cam-drin a brofir gan fenywod hŷn.[18] O ddeall y rhwystrau mae menywod hŷn yn eu hwynebu mae'n anhygoel o bwysig bod gweithwyr proffesiynol yn cynnig cyfleoedd datgelu i oroeswyr hŷn, yn enwedig y rhieni a allai ei chael yn anoddach siarad am y cam-drin, gan symud y cyfrifoldeb am ddatgelu oddi wrth y goroeswr a throsglwyddo cyfrifoldeb am greu gofod i alluogi datgelu i'r gweithwyr proffesiynol.[19]

## Fframwaith Gofyn a Gweithredu

Mae dyletswyddau newydd y sector cyhoeddus dan Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yn golygu bod rhaid i weithwyr sector cyhoeddus sydd wedi'u hyfforddi, gan gynnwys gweithwyr iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, wneud ymholiadau sydd wedi'u targedu, a elwir yn 'Gofyn a Gweithredu'. Mae hwn yn ymholiad wedi'i dargedu ar draws gwasanaeth cyhoeddus Cymru mewn perthynas â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol[20]. Mae'n cynyddu'r cyfleoedd i oroeswyr nodi a datgelu cam-drin ac yn cynyddu mynediad at gymorth arbenigol drwy lwybrau atgyfeiriol, drwy arwyddo at gymorth arbenigol priodol a galluogi ymyriadau cynharach.

---

[16] N Sharp-Jeffs and L. Kelly, 'Domestic Homicide Review (DHR) Case Analysis: Case Analysis', http://www.standingtogether.org.uk/sites/default/files/docs/STADV_DHR_Report_Final.pdf, 2016, [cyrchwyd 9 Mehefin 2017], tt. 13.
[17] Ibid pp 12
[18] S. Lewis and C. Williams, 'Adult safeguarding and domestic abuse: A guide to support practitioners and managers', Local Government Association, 2013, https://www.local.gov.uk/sites/default/files/documents/adult-safeguarding-and-do-cfe.pdf, [cyrchwyd 9 May 2017], tt. 35.
[19] N Sharp-Jeffs and L. Kelly, 'Domestic Homicide Review (DHR) Case Analysis: Case Analysis', http://www.standingtogether.org.uk/sites/default/files/docs/STADV_DHR_Report_Final.pdf, 2016, [cyrchwyd 9 Mehefin 2017], tt. 35.
[20] Gweler Llywodraeth Cymru, 'Y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol: Canllawiau statudol o dan adran 15 o Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 ac adran 60 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, *Llywodraeth Cymru,* 2016, http://www.senedd.cynulliad.cymru/documents/s48757/CLA4-03-16%20-%20Papur%206.pdf (cyrchwyd 5 Ionawr 2017).

**Pendragon House, Caxton Place | Pentwyn, Cardiff | CF23 8XE**
**Tel: 02920 541551 | Fax: 02920 736128**
**Email: info@welshwomensaid.org.uk | Web: www.welshwomensaid.org.uk**
**Registered Charity Number: 1140962**

Caiff hyfforddiant 'Gofyn a Gweithredu' ei gyflenwi mewn partneriaeth gyda hyfforddwyr arbenigol yn y sector trais yn erbyn menywod, gyda'u cyfraniad yn cael ei ganmol yn uchel gan weithwyr iechyd proffesiynol yn y sector cyhoeddus, gan gynyddu cymorth i'r hyfforddeion wrth iddynt ddechrau gweld sut mae dysgu am gam-drin domestig, trais rhywiol a mathau eraill o drais yn erbyn menywod yn effeithio ar eu profiadau proffesiynol a phersonol dydd i ddydd. Er enghraifft, drwy enwi ymddygiad a gydnabyddir fel cymell a rheoli, mae ymarferwyr wedi gallu grymuso goroeswyr drwy roi geiriau iddynt ddisgrifio eu profiadau. Mae ymarferwyr hefyd wedi gallu adnabod ymddygiad cam-drin cynnar neu sefydledig mewn cleifion.

Nod 'Gofyn a Gweithredu' yw grymuso ymarferwyr ymhellach i ddeall cymhlethdodau trais yn erbyn menywod, trais rhywiol a cham-drin domestig i oroeswyr a chyflawnwyr. Drwy weithio'n galed i ddeall stori bywyd unigol pob claf, gallant gynnig gofal tosturiol a chymorth priodol i wrthbwyso'r perygl y caiff y profiadau hyn eu hailadrodd.

Dylid cynnwys hyfforddiant 'Gofyn a Gweithredu' yn rhan o hyfforddiant gweithwyr proffesiynol yn y gwasanaethau cymdeithasol sy'n gweithio gyda phobl hŷn, gyda ffocws penodol ar brofiadau ac anghenion penodol pobl hŷn, ynghyd â herio rhagfarn oed sefydliadol hefyd. Yn ogystal, rhaid rhybuddio'r holl wasanaethau am y risg cynyddol o gam-drin domestig i fenywod anabl a'r risg cynyddol o gam-drin mewn perthynas o ofal ble mae'r gofalwr yn bartner[21].

## Darpariaeth y Gwasanaethau Arbenigol

***Mae gwasanaethau arbenigol trais yn erbyn menywod ar draws Cymru'n cynnig achubiaeth i oroeswyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol o unrhyw oed.***

Yn 2015-16 ymhlith aelod wasanaethau Cymorth i Ferched Cymru, yr ail reswm mwyaf cyffredin yr oedd goroeswyr yn methu â chael cymorth oedd am nad oedd y cymorth yn y lloches yn gallu bodloni'r anghenion a bennwyd a/neu nad oedd gan y gwasanaeth gapasiti pellach i gefnogi goroeswyr ag anghenion y pennwyd eu bod yn gymhleth ac yn niferus. Roedd hyn yn wir am 115 o oroeswyr a gyfeiriwyd am gymorth lloches y llynedd. Yn ogystal, roedd 6 menyw nad oedd modd eu lletya am nad oedd cyfleusterau anabl addas ar gael.

Dywedodd menywod hŷn wrth Cymorth i Ferched Cymru yn ymgynghoriad groeswyr 2016[22] bod angen iddynt gael llety oedd yn fwy addas ac wedi'i addasu i'w hanghenion, o ystyried rhai o'r problemau iechyd roeddent bellach yn eu hwynebu. I rai, roedd y rhain yn cael eu gwaethygu gan gamddefnydd sylweddau dros dymor hir ac ymwneud â'r diwydiant rhyw.

Yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf, wynebodd aelod wasanaethau Cymorth i Ferched Cymru o leiaf £760,000 o doriadau cyfunol ar lefelau'r flwyddyn flaenorol. Gyda gwasanaethau arbenigol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol eisoes yn gwegian, mae toriadau pellach yn golygu na fydd gwasanaethau sy'n bodoli o bosibl yn gallu bodloni anghenion menywod hŷn nac yn gallu creu arferion arloesol sy'n gweddu'n well i ofynion goroeswyr dros 50 oed yng Nghymru.

---

[21] Ibid pp 13
[22] Ibid

Yn ymgynghoriad goroeswyr Cymorth i Ferched Cymru 'Are you Listening and am I being heard?'[23], canfyddiad rhai menywod hŷn oedd bod diffyg gwasanaethau iddynt eu cyrchu. Soniodd Bronwen* am y diffyg opsiynau oedd ar gael iddi adael ei gŵr oedd yn ei cham-drin gan bwysleisio nad oedd y gwasanaethau cymorth angenrheidiol o bosibl mor barod i ddiwallu anghenion menywod hŷn: **"Yn ariannol yn fy oed i does dim modd i mi ailddechrau, ac mae tybiaeth gref yn ein cenhedlaeth ni o hyd bod angen dyn arnoch i oroesi. Byddwn i'n byw ar fy mhen fy hun mewn fflat fach pe bai modd i fi gael cefnogaeth."**

## Ymateb Cymunedol

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynorthwyo Cymorth i Ferched Cymru i ddatblygu model ar gyfer ymyrraeth gynnar ac atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, o'r enw "Change that Lasts / Newid sy'n Para"[24]. Sylfaen y model yw agwedd at gynorthwyo goroeswyr a arweinir gan anghenion a'i llywio gan drawma ar sail cryfderau. Ar gyfer goroeswyr hŷn byddai hyn yn golygu cymuned sy'n gallu cydnabod eu profiad ac ymateb i'w hanghenion unigol penodol. Mae'r model yn cydnabod y bydd gan oroeswyr anghenion cymorth niferus, gan gynnwys rhai'n gysylltiedig ag oedran a phrofiad bywyd, a'r nod yw gwella gallu gwasanaethau arbenigol i ymateb i'r anghenion unigol hynny.

Mae'r model hefyd yn ceisio cynyddu'r cyfleoedd i fenywod hŷn sydd wedi profi trais a cham-drin gael cymorth drwy wella dealltwriaeth y gymuned a chreu mannau diogel ble gall pobl hŷn sydd wedi profi cam-drin deimlo'n ddiogel i fanteisio ar wybodaeth hanfodol a chael eu cyfeirio at gymorth angenrheidiol; gallai hyn gynnwys gwasanaethau a ddefnyddir gan bobl hŷn gan gynnwys canolfannau cymunedol, clybiau, canolfannau gweithgaredd ac ati. Mae'r model yn ategu fframwaith 'Gofyn a Gweithredu' Cymru, gan hyfforddi gweithwyr proffesiynol dibynadwy ar sut i adnabod arwyddion o gam-drin fel nad yw trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn cael ei fethu a'i fod yn cael ei gynnwys fel rhwybeth sydd angen sylw wrth reoli achosion.

Mae gan bob un rôl yn y gwaith o greu cymunedau sy'n wybodus ac nad ydynt yn goddef cam-drin. Mae'n bryd i ni fuddsoddi mewn dull newydd o gynorthwyo goroeswyr cam-drin yng Nghymru, fel bod pob cyswllt â goroeswyr a chyflawnwyr yn gyfle i gael help a chymorth, na ddylid ei golli. Ein ffocws, yn Cymorth i Ferched Cymru, yw trawsnewid ymatebion cymunedol a gwasanaeth cyhoeddus gan wneud yn siŵr fod gwasanaethau arbenigol yn cydweithio i ddarparu'r cymorth hanfodol sydd ei angen ar oroeswyr.

*Gall unrhyw un sydd wedi'i effeithio gan gam-drin pobl hŷn neu unrhyw fath arall o drais yn erbyn menywod gysylltu â Llinell Gymorth am ddim Byw Heb Ofn - llinell gymorth 24 awr i fenywod, plant a dynion sy'n profi cam-drin domestig, trais rhywiol neu fathau eraill o drais yn erbyn menywod - ar 0808 80 10 800, drwy sgwrsio gwe neu ebost info@livefearfreehelpline.wales*

[23] Cymorth i Ferched Cymru, 'Are you listening and am I being heard? Survivor Consultation: A report of the recommendations made by survivors of violence yn erbyn menywod, domestic abuse and sexual violence, to inform the National Strategy in Wales', *Cymorth i Ferched Cymru*, 2016, tt. 24.

[24] Datblygwyd y model mewn partneriaeth, gyda chefnogaeth gychwynnol gan Lywodraeth Cymru, y Swyddfa Gartref a Women's Aid England, a chaiff ei lywio gan adolygiad o'r llenyddiaeth a dulliau cyfredol ac ymgysylltu eang gyda rhanddeiliaid gan gynnwys ymgynghori â goroeswyr a gwasnaethau arbenigol.

*Bydd Cymorth i Ferched Cymru yn parhau i weithio gyda goroeswyr a gwasanaethau arbenigol i wella ymatebion i gam-drin pobl hŷn a chymorth y gallai fod ei angen ar oroeswyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a'u plant. Os oes gennych chi unrhyw sylwadau neu ymholiadau am y nodyn briffio hwn, cysylltwch yn ddi-oed â:*

**Hilary Watson**
Swyddog Polisi ac Ymchwil
hilarywatson@welshwomensaid.org.uk
02920541551